# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 8 Rhagfyr 2015

Amser: 09.00 - 10.55

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3291

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | William Powell AC (Cadeirydd)<br>Russell George AC<br>Bethan Jenkins AC<br>Joyce Watson AC |
| Tystion: | Dr John Cox, Deisebydd<br>Nesta Lloyd-Jones, Conffederasiwn GIG Cymru<br>Rob Southall, Deisebydd |
| Staff y Pwyllgor: | Steve George (Clerc)<br>Kath Thomas (Dirprwy Glerc)<br>Gill Eveleigh (Dirprwy Glerc)<br>Matthew Richards (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 248KB) Gweld fel HTML (203KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

# 2 Deisebau newydd

## 2.1 P-04-658 Derwen Brimmon

Datganodd William Powell y buddiant a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n adnabod Mr Lloyd Jones ac wedi rhoi cyngor gweithdrefnol i'r deisebwyr.

Datganodd Russell George y buddiant a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae wedi bod i weld y goeden gyda Mr Lloyd Jones ac wedi gwneud sylwadau mewn cyfarfod ymchwiliad cyhoeddus a gynhaliwyd yn y Drenewydd.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn iddi nodi a yw'n cefnogi gwarchod y goeden a pha gamau y mae'n bwriadu eu cymryd i sicrhau y caiff ei gwarchod.

## 2.2 P-04-660 Y Pwysau Ychwanegol sy'n Wynebu Ardaloedd Gwledig Prin eu Poblogaeth

Datganodd William Powell y buddiant a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n aelod o Gyngor Sir Powys ac yn llywodraethwr ysgol.

Datganodd Russell George y buddiant a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n aelod o Gyngor Sir Powys ac yn llywodraethwr ysgol.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog er mwyn:

- Gofyn am ei farn am y wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y deisebwyr;
- Gofyn pa ymchwil sydd wedi'i wneud i'r effaith ar ddisgyblion sy'n derbyn eu haddysg gynradd tu allan i Gymru a'u haddysg uwchradd yng Nghymru ac a oes gan gonsortia addysg unrhyw wybodaeth am nifer y disgyblion yr effeithir arnynt fel hyn.

### 2.3 P-04-659 Talwch Gostau Teithio Llawn Myfyrwyr Nyrsio

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i aros am farn y deisebydd am lythyr y Gweinidog.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-04-638 Y Gwasanaethau Brys - Pŵer Mynediad

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog a chytunodd i:

- ofyn eto am ymatebion gan Wasanaeth Ambiwlans Cymru;
- gofyn am farn y deisebydd am lythyr y Dirprwy Weinidog; ac
- ystyried y mater hwn ymhellach yn y Flwyddyn newydd ar ôl derbyn yr ymatebion hynny.

### 3.2 P-04-649 Addysg Gymraeg - Bendith neu Felltith

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb gan nad oes llawer yn rhagor y gall y Pwyllgor ei wneud i gymryd materion yn eu blaen.

### 3.3 P-04-639 Achubwch Addysg Bellach ym Mhowys

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- aros am farn y deisebwyr am lythyr cynharach y Dirprwy Weinidog a gohebiaeth Grŵp NPTC; a
- chau'r ddeiseb os na cheir ymateb erbyn diwedd mis Ionawr.

### 3.4 P-04-628 Mynediad at Iaith Arwyddion Prydain i Bawb

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn i'r deisebwyr ystyried derbyn y cynnig o gyfarfod â swyddogion yn y lle cyntaf ac i fwydo yn ôl i'r Pwyllgor er mwyn i'r Aelodau i ystyried y ffordd orau o gymryd materion yn eu blaen.

### 3.5 P-04-637 Diogelu Dyfodol Cerddoriaeth Ieuenctid yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu eto at y Gweinidog Addysg a Sgiliau i ofyn a oes ganddo unrhyw sylwadau pellach ynghylch llythyr diweddaraf y deisebwyr, yn arbennig ei farn ynghylch barn y grŵp gorchwyl a gorffen am ganolfannau cerddoriaeth fel model; ac

- ysgrifennu at CBAC i ofyn am wybodaeth bellach am ei gynlluniau yn ymwneud ag adnoddau ar gyfer y Gerddorfa Genedlaethol Ieuenctid.

**3.6 P-04-646 Canllawiau Anstatudol yng Nghymru ar Gyfer Awdurdodau lleol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref.**

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb ac, o ystyried yr ymddengys bod y Gweinidog wedi mynd i'r afael â phryderon y deisebwyr ac wedi cytuno'n flaenorol i sicrhau y caiff eu safbwyntiau eu hystyried wrth ddatblygu'r canllawiau newydd, cytunodd i gau'r ddeiseb.

**3.7 P-04-644 Dyfodol Addysg Bellach**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros i glywed barn y deisebydd am lythyr y Gweinidog.

**3.8 P-04-626 Israddio Ffordd yr A487 drwy Penparcau, Trefechan a chanol tref Aberystwyth**

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan y Gweinidog a chytunodd i ofyn am farn y deisebydd am lythyr y Gweinidog, ond wrth wneud hynny, dangos bod y Pwyllgor yn bwriadu cau'r ddeiseb gan nad yw'n ymddangos bod llawer mwy y gall y Pwyllgor ei wneud i symud y mater yn ei flaen yn y Cynulliad hwn.

**3.9 P-04-632 Mynyddoedd Pawb**

Trafododd yr Aelodau yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb ac roedd o blaid cau'r ddeiseb o gofio bod y prif faterion y mae'n eu codi yn cael eu datblygu drwy gyfrwng y Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru). Fodd bynnag, mynegodd yr Aelodau siom nad oedd yn ymddangos bod Croeso Cymru na Chynghrair Twristiaeth Cymru wedi ymateb i geisiadau am wybodaeth a chytunodd i ysgrifennu eto at y ddau sefydliad ac ystyried y ddeiseb ymhellach pan ddaw'r ymatebion i law.

**3.10 P-04-577 Adfer Cyllid i'r Prosiect Cyfleoedd Gwirioneddol**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- Gau'r ddeiseb gan fod y Pwyllgor wedi cymryd y mater hwn cyn belled ag y gall; ac
- Wrth wneud hynny, gofyn i Mr O'Brien, Prif Weithredwr WEFO:
    - am ei sylwadau am lythyr y deisebwyr a'i ymateb i'w cwestiynau penodol; a

- chwrdd â'r deisebwyr i drafod eu pryderon.

### 3.11 P-04-641 Perchnogion Tir nad yw wedi cael ei Ddatblygu

Ystyriodd y Pwyllgor gyngor cyfreithiol a oedd yn dangos bod hwn yn fater sydd heb ei ddatganoli lle nad oes gan y Cynulliad y pŵer i gymryd y camau y mae'r ddeiseb yn galw amdanynt.  O ystyried hyn, cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb.  Wrth wneud hynny, cytunodd y Pwyllgor anfon crynodeb o'r cyngor cyfreithiol ymlaen at y deisebydd.

## 4 Sesiwn Dystiolaeth - Adolygiad o System Ddeisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau i'r tystion am eu profiad o system ddeisebau'r Cynulliad.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ar gyfer y busnes canlynol:

Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 6 Trafod y Sesiwn Tystiolaeth Lafar - Adolygu'r System Ddeisebau

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth cyn iddo baratoi ei adroddiad.

## 7 Adolygiad o System Ddeisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ystyriodd y Pwyllgor bapur ar yr adolygiad o ddeisebau, ynghyd â'r dystiolaeth lafar a glywyd yn y sesiwn cynharach, a chytunodd i ystyried argymhellion ar gyfer newidiadau posibl trwy ohebiaeth yn y lle cyntaf.

## 8 Trafod Sesiwn Dystiolaeth Lafar - P-04-522 Asbestos mewn Ysgolion

Cytunodd y Pwyllgor i ohirio ystyried y ddeiseb nes iddo dderbyn rhagor o wybodaeth gan y Gweinidog yn dilyn ei sesiwn dystiolaeth ar 24 Tachwedd.